Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymhorthion ac addasiadau yn y cartref

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymhorthion ac addasiadau yn y cartref

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg o'r cymorth sydd ar gael i bobl yng Nghymru y mae angen addasiadau yn y cartref arnynt neu offer i'w helpu i fyw'n annibynnol.

Mae'n rhoi gwybodaeth am y cymhorthion a'r addasiadau sydd ar gael a ble a sut i'w cael, gwybodaeth am gyllid, a gwybodaeth ddefnyddiol arall.

Rydym hefyd yn cyfeirio at sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth a chymorth ynghylch addasiadau yn y cartref.

# Cynnwys


**1. Beth yw cymhorthion ac addasiadau yn y cartref? ................ 9**

**2. Cymorth gyda chymhorthion ac addasiadau yn y cartref ...10**

Asesiadau'r awdurdod lleol ........................................ 10

Cael caniatâd gan eich landlord ........................................ 10

Os ydych yn byw mewn tŷ cymdeithasol ........................................ 10

Os ydych yn byw mewn cartref rhent preifat ........................................ 11

Os ydych yn lesddeiliad ........................................ 11

Cael offer neu gymhorthion yn y cartref drwy'r gwasanaeth iechyd ........................................ 11

**3. Cyllid ar gyfer addasiadau yn y cartref ........................................ 12**

Cynllun HWYLUSO ........................................ 12

Grant Cyfleusterau i'r Anabl ........................................ 12

Rhaglen Addasiadau Brys ........................................ 13

Grant Addasiadau Ffisegol ........................................ 13

Grantiau elusennol ........................................ 14

**4. Polisïau, safonau a chwynion ........................................ 15**

Pa mor hir mae'n ei gymryd i osod addasiadau? ........................................ 15

Cwyno ac apelio ........................................ 16

**5. Ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth ........................................ 17**

# 1. Beth yw cymhorthion ac addasiadau yn y cartref?

Newidiadau i'ch cartref sy'n ei gwneud yn haws i chi symud o gwmpas neu wneud tasgau bob dydd yw addasiadau yn y cartref. Gallai'r newidiadau hyn fod yn fawr neu'n fach.

Gallai enghreifftiau o addasiadau yn y cartref gynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau cydio;
- ychwanegu lifft grisiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod mynediad gwastad neu sedd gawod; a
- lledu drysau ar gyfer cadeiriau olwyn.

Gallwch hefyd gael cymhorthion neu offer sy'n gwneud eich bywyd yn haws gartref. Gallai hyn gynnwys pethau fel intercom drws, seddi toiled uwch neu declyn codi i'ch helpu i fynd i mewn i'r gwely neu godi ohono.

Mae cymhorthion yn y cartref fel arfer yn rhai y gellir eu symud ymaith neu'n rhai cludadwy, ac felly nid ydynt yn golygu gwneud newidiadau ffisegol neu strwythurol i'ch cartref.

# 2. Cymorth gyda chymhorthion ac addasiadau yn y cartref

Fel arfer, bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol, meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall i gael help gyda chymhorthion ac addasiadau yn y cartref.

## Asesiadau'r awdurdod lleol

Gallwch **gysylltu â'ch awdurdod lleol** i gael cymorth gydag offer ac addasiadau yn y cartref. Bydd yr awdurdod lleol fel arfer yn cynnal asesiad er mwyn deall eich anghenion o ran gofal a chymorth, a bydd yn penderfynu a yw'r rhain yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer darparu gwasanaethau ai peidio. Mae asesiad yn gyffredinol yn digwydd yn eich cartref chi, a gall gael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol a/neu therapydd galwedigaethol.

Os bydd awdurdod lleol yn nodi bod gennych anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra, mae ganddo ddyletswydd gyfreithiol o dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** i drefnu neu ddarparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny. Gallai hyn gynnwys trefnu addasiadau yn y cartref neu ddarparu offer i'ch helpu gartref.

Gallwch ddarllen mwy am asesiadau gofal cymdeithasol a'r cyfrifoldebau sydd gan awdurdodau lleol yng **nghanllaw Ymchwil y Senedd ar gael mynediad at ofal a chymorth**.

## Cael caniatâd gan eich landlord

Os ydych yn rhentu eich cartref, dylech gysylltu â'ch landlord yn gyntaf cyn ceisio gwneud unrhyw addasiadau yn y cartref.

### Os ydych yn byw mewn tŷ cymdeithasol

Dylech gysylltu â'ch landlord cymdeithasol yn y lle cyntaf os ydych yn byw mewn tŷ cyngor neu eiddo cymdeithas dai. Mae gan rai landlordiaid cymdeithasol eu prosesau eu hunain ar gyfer asesu anghenion, cael gafael ar gyllid a threfnu i addasiadau gael eu gwneud. Er enghraifft, efallai y bydd cymdeithasau tai yn gallu **cael Grant Addasiadau Ffisegol** i ariannu'r gwaith.

### Os ydych yn byw mewn cartref rhent preifat

Os ydych yn rhentu gan landlord preifat, bydd **angen i'r landlord gytuno** cyn i unrhyw addasiadau gael eu gwneud.

**Nid oes rheidrwydd cyfreithiol** ar landlordiaid i ganiatáu symud ymaith neu newid nodwedd ffisegol yn yr eiddo, neu wneud newidiadau i ardaloedd a rennir (fel cynteddau neu fynedfeydd mewn bloc o fflatiau). Ond efallai y bydd gan **bobl sy'n gymwys i gael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb** hawl gyfreithiol i gael cymhorthion cludadwy neu dros dro, os byddai'r cymorth yn eu hatal rhag bod o dan **'anfantais sylweddol'** yn eu cartref.

Mae gan Scope, sy'n elusen cydraddoldeb anabledd, ragor o wybodaeth ynghylch **eich hawliau fel tenant preifat** o ran cymhorthion neu addasiadau yn y cartref. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar ei gwefan: **https://www.lease-advice.org/wales-page/**

### Os ydych yn lesddeiliad

Os ydych yn berchen ar eiddo lesddaliadol, mae'n debygol y bydd angen i chi gael caniatâd y rhydd-ddeiliad cyn gwneud unrhyw addasiadau. Dylech **wirio'r darpariaethau yn eich prydles**.

Mae'r **Gwasanaeth Cynghori ar Lesddaliadau** (LEASE) yn rhoi cyngor yn rhad ac am ddim i lesddeiliaid preswyl. Gallwch gael mwy o wybodaeth ar ei wefan: **www.lease-advice.org/wales-page/**

## Cael offer neu gymhorthion yn y cartref drwy'r gwasanaeth iechyd

Mewn rhai achosion, efallai y cewch offer neu gymhorthion drwy'r GIG yn hytrach na'ch awdurdod lleol. Bydd hyn fel arfer **pan fydd angen offer i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd** yn hytrach nag anghenion gofal cymdeithasol. Er enghraifft, efallai y cewch offer i helpu gyda symudedd, cymhorthion clyw neu olwg, neu **ddyfeisiau teleofal**.

Dylech siarad â meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall os ydych yn meddwl y byddai cymhorthion neu offer i ddiwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd o fudd i chi.

# 3. Cyllid ar gyfer addasiadau yn y cartref

Mae gwahanol ffrydiau ariannu neu gynlluniau yng Nghymru y gellir eu defnyddio i wneud addasiadau yn y cartref. Efallai y bydd gwahanol ddarparwyr gwasanaethau yn rhan o'r broses yn dibynnu ar ble rydych yn byw ac a ydych yn berchen ar eich cartref ynteu'n ei rentu.

Yn ymarferol, fel arfer bydd angen i chi wneud cais am help drwy eich awdurdod lleol, landlord cymdeithasol neu weithiwr iechyd proffesiynol yn hytrach na gwneud cais uniongyrchol i'r cynlluniau hyn.

## Cynllun HWYLUSO

Mae addasiadau bach sy'n costio llai na £1,000 fel arfer yn cael eu darparu am ddim a heb brawf modd i bobl hŷn neu'r rhai y mae angen iddynt wneud newidiadau i'w cartref oherwydd anabledd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu **cyllid grant HWYLUSO** i awdurdodau lleol fel adnodd hyblyg y gellir ei ddefnyddio i dalu am addasiadau bach a chanolig. Mae rhai awdurdodau lleol yn dirprwyo eu cyllid HWYLUSO i asiantaethau lleol **Care & Repair Cymru**.

Gall awdurdodau lleol a chymdeithasau tai hefyd ddewis talu am addasiadau bach i denantiaid gan ddefnyddio'u harian eu hunain.

## Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Grant gorfodol a weinyddir gan awdurdodau lleol ac a ddefnyddir i gyfrannu at gost addasiadau yn y cartref yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

Yng Nghymru, defnyddir y grant hwn yn gyffredinol i ariannu addasiadau mwy o faint a mwy costus. Yr uchafswm y gellir ei ddyfarnu ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw £36,000. Mae'r grant ar gael i bobl o bob oed ac ym mhob deiliadaeth tai, er y bydd angen i bobl sy'n rhentu eu cartref gael caniatâd gan eu landlord cyn gwneud cais.

Mae'r grant hwn yn destun prawf modd. Efallai y bydd rhaid i ymgeiswyr wneud cyfraniad tuag at gost yr addasiadau. Yn 2021 **cyfarwyddodd Llywodraeth Cymru awdurdodau lleol i gael gwared ar y prawf modd ar gyfer addasiadau bach a chanolig y Grant Cyfleusterau i'r Anabl** fel amod er

mwyn cael cyllid HWYLUSO. Fodd bynnag, bydd y ffordd y caiff y prawf modd ei gymhwyso yn amrywio ar draws awdurdodau lleol. Ni chaiff y prawf modd ei gymhwyso pan fydd cais am grant yn cael ei wneud gan riant neu warcheidwad plentyn anabl (o dan 16 oed) neu berson ifanc (o dan 19 oed).

Mae'r fframwaith statudol ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'i nodi yn **Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996**. Er mwyn i grant gael ei gymeradwyo, rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod y gwaith yn angenrheidiol ac yn briodol i ddiwallu anghenion y preswylydd anabl a'i bod yn rhesymol ac yn ymarferol gwneud y gwaith perthnasol o ystyried oedran a chyflwr yr annedd.

Mae adran 23 o Ddeddf 1996 yn nodi'r dibenion y mae rhaid rhoi grant Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar eu cyfer, neu y caniateir rhoi'r grant ar eu cyfer. Mae adran 3 o **Orchymyn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (Uchafsymiau a Dibenion Ychwanegol) (Cymru) 2008** yn ychwanegu dau ddiben arall ar gyfer y grantiau hyn yng Nghymru.

Rhaid i awdurdod lleol **eich hysbysu am ei benderfyniad i gymeradwyo neu wrthod cais am grant** o fewn 6 mis i gael y cais. Os gwrthodir eich cais, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i chi beth yw'r rhesymau dros ei wrthod.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gael yng **Nghylchlythyr 20/2002 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Atodiad D). Fe'i diwygiwyd ddiwethaf yn 2010.**

## Rhaglen Addasiadau Brys

Mae'r **Rhaglen Addasiadau Brys** yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i darparu drwy Gofal a Thrwsio Cymru ac asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru.

Mae'r rhaglen yn ariannu addasiadau yn y cartref sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol neu eu galluogi i gael eu rhyddhau'n ddiogel o'r Ysbyty. Mae'n agored i bobl 60 oed a throsodd ag anabledd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain neu'n rhentu'n breifat.

## Grant Addasiadau Ffisegol

Mae'r **Grant Addasiadau Ffisegol** yn helpu cymdeithasau tai i dalu costau gwneud addasiadau i eiddo y maent yn berchen arno. Mae cyllid yn cael ei ddyrannu i ddarparwyr tai cymdeithasol cymwys yn flynyddol, ac yn cael ei ddefnyddio i ariannu addasiadau canolig neu fawr.

Ym mis Ionawr 2021, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, Julie James AS, **y rhoddwyd rheolaeth i gymdeithasau tai dros eu cyllideb Grantiau Addasiadau Ffisegol**, i'w galluogi, meddai, i ymdrin yn fwy strategol ag addasiadau a chynyddu'r stoc tai hygyrch yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

Gall awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio eu cyllid eu hunain ar gyfer gwaith addasiadau yn y cartref. O dan **Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002**, gall awdurdodau lleol gyflwyno mathau o gymorth yn ôl disgresiwn (e.e. grantiau neu fenthyciadau) a gosod eu hamodau neu eu terfynau ariannol eu hunain. Gellid defnyddio'r cymorth hwn i ychwanegu at y Grant Cyfleusterau i'r Anabl neu yn lle'r grant hwnnw.

## Grantiau elusennol

Mae rhai elusennau yn cynnig grantiau tuag at gost addasiadau neu'n darparu offer a chymhorthion yn rhad ac am ddim. Mae rhestr o sefydliadau perthnasol ar ddiwedd y canllaw hwn.

# 4. Polisïau, safonau a chwynion

Mae'n ofynnol o dan y gyfraith i awdurdodau lleol **fabwysiadu polisi** o ran sut y maent yn darparu cymorth ariannol at ddibenion gwella amodau byw yn eu hardal. Gallwch ofyn am grynodeb o'r polisi gan eich awdurdod lleol, neu efallai y caiff ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau tai**, sy'n nodi lefel y gwasanaeth a ddisgwylir gan bob darparwr sy'n ymwneud â darparu addasiadau tai. Mae'r safonau'n nodi sut y dylai darparwyr gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau, ansawdd disgwyliedig gwasanaethau ac offer, a pha wiriadau cymhwystra sydd eu hangen fel arfer.

## Pa mor hir mae'n ei gymryd i osod addasiadau?

Mae safonau gwasanaeth Llywodraeth Cymru yn nodi **amserlenni disgwyliedig** ar gyfer darparu **addasiadau bach, canolig a mawr**. Ceir crynodeb yn y tabl isod.

***Tabl 1: Amserlenni ar gyfer darparu addasiadau tai***

| **Math o addasiad** | **Amserlen ar gyfer ei ddarparu** |
|---|---|
| **Addasiadau bach** - h.y. eitemau rhad y gellir eu darparu'n gyflym | Bydd yr addasiad fel arfer yn cael ei osod o fewn 3 wythnos (os oes ei angen ar frys) neu 4 wythnos (os nad oes ei angen ar frys) i ddyddiad y cyswllt cyntaf â'r darparwr gwasanaeth a oedd o'r farn bod angen yr addasiad. |
| **Addasiadau canolig** – h.y. unrhyw addasiadau na chânt eu hystyried yn rhai bach na mawr | Gall defnyddwyr gwasanaethau ddisgwyl cael asesiad o fewn 2 fis i ddyddiad y cyswllt cyntaf â'r darparwr gwasanaeth.<br><br>Os bernir bod yr addasiad yn angenrheidiol, dylid cyflwyno adroddiad neu atgyfeiriad i ddarparwr gwasanaeth o fewn 2 wythnos i'r penderfyniad. |

| | |
|---|---|
| | Bydd yr addasiad fel arfer yn cael ei osod o fewn 4 mis (neu yn unol â gofynion deddfwriaethol) i ddyddiad yr atgyfeiriad neu'r adroddiad. |
| **Addasiadau mawr** – h.y. gwaith sy'n gofyn am asesiadau arbenigol, cymeradwyaeth statudol ac addasiadau sylweddol i eiddo | Gall defnyddwyr gwasanaethau ddisgwyl cael asesiad o fewn 2 fis i ddyddiad y cyswllt cyntaf â'r darparwr gwasanaeth.<br><br>Os bernir bod yr addasiad yn angenrheidiol, dylid cyflwyno adroddiad neu atgyfeiriad i ddarparwr gwasanaeth o fewn 2 wythnos i'r penderfyniad.<br><br>Bydd yr addasiad fel arfer yn cael ei osod o fewn 15 mis (neu yn unol â gofynion deddfwriaethol) i ddyddiad yr atgyfeiriad neu'r adroddiad. |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru,* ***Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai***

## Cwyno ac apelio

Mae'r **safonau gwasanaeth ar gyfer addasiadau tai** yn nodi bod gennych hawl i wneud cwyn os nad ydych yn fodlon ar lefel y gwasanaeth a gawsoch gan sefydliad sy'n darparu addasiadau tai.

Dylech wneud eich cwyn yn uniongyrchol i'r darparwr gwasanaeth, a ddylai ymdrin â'r gŵyn yn unol â gweithdrefn gwyno ei sefydliad. Os byddwch yn penderfynu defnyddio eich contractwr eich hun i wneud y gwaith, eich cyfrifoldeb chi fydd ymdrin ag unrhyw faterion a'u datrys.

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan eich awdurdod lleol ynghylch addasiadau yn y cartref neu asesiadau gofal cymdeithasol, gallwch wneud cwyn ffurfiol. Dylai gwybodaeth am weithdrefn gwyno eich awdurdod lleol fod ar gael ar wefan yr awdurdod.

Os ydych yn dal yn anhapus ar ôl i'r awdurdod lleol ymateb i'ch cwyn, efallai y byddwch yn gallu gwneud cwyn i **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cwynion sy'n ymwneud â **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** a **gwasanaethau gofal cymdeithasol**.

# 5. Ffynonellau eraill o wybodaeth a chymorth

- **Age Cymru** - yn darparu gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn. Maent yn cyhoeddi **taflenni ffeithiau a chanllawiau manwl** ar eu gwefan sy'n esbonio sut i gael addasiadau yn y cartref, offer ac asesiadau gofal cymdeithasol. Gwefan: **www.ageuk.org.uk/cymraeg/age-cymru/ein-gwaith/yn-eich-ardal-chi/**. Llinell gyngor: 0300 303 44 98. E-bost: advice@agecymru.org.uk

- **Care & Repair Cymru** - yn darparu cymorth i bobl hŷn a'r rhai sy'n anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Gallant helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllid, yn ogystal â threfnu i gymhorthion ac addasiadau gael eu gosod. Gwefan: **https://careandrepair.org.uk/cy/our-agencies/**

- **Cyngor ar Bopeth** - yn darparu cyngor cyfrinachol ac annibynnol yn rhad ac am ddim ar amryw o faterion. Gwefan: **https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg**. Llinell gyngor: 0800 702 2020.

- **Disability Justice Project** - yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau sy'n helpu pobl anabl i ddeall ac arfer eu hawliau. Gwefan: **www.disabilityjustice.org.uk/**

- **Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) -** os ydych wedi wynebu gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gallwch gael help gan linell gymorth EASS. Gwefan: **https://eass-ws.custhelp.com/app/home**. Llinell gyngor: 0808 800 0082

- **Living Made Easy** - yn cyhoeddi gwybodaeth a chyngor diduedd yn rhad ac am ddim ar atebion i broblemau, teclynnau, addasiadau a chymhorthion i wneud bywyd yn haws. Gwefan: **www.livingmadeeasy.org.uk/**

- **Scope** - elusen cydraddoldeb anabledd sy'n darparu gwybodaeth a chymorth sy'n berthnasol i bobl anabl. Gwefan: **www.scope.org.uk/advice-and-support**

- **Shelter Cymru** - yn darparu cyngor cyfrinachol ac annibynnol yn rhad ac am ddim ar faterion tai. Gwefan: **https://sheltercymru.org.uk/cy/get-help/**